

**YMGYNGHORIAD FFURFIOL AR
GAU'R GANOLFAN ADNODDAU
DYSGU AR SAFLE YSGOL
UWCHRADD LLANWERN**

Fersiwn gryno syml





YMGYNGHORIAD FFURFIOL AR GAU'R GANOLFAN ADNODDAU DYSGU AR SAFLE YSGOL UWCHRADD LLANWERN

(Fersiwn gryno syml – plant a phobl ifanc)

Mae'r cyngor yn cynnig cau'r Ganolfan Adnoddau Dysgu sydd ar safle Ysgol Uwchradd Llanwern ar hyn o bryd yn barhaol o fis Ionawr 2018.

Mae'r cyngor o'r farn y gallai anghenion unigol disgyblion sy'n mynychu'r Ganolfan Adnoddau Dysgu gael eu diwallu'n well mewn lleoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol o fewn ysgolion cynnal prif ffrwd. Byddai hyn hefyd yn cwtogi'n sylweddol ar gostau rhedeg gweithredol y ddarpariaeth bresennol.

Cylch gwaith y Ganolfan Adnoddau Dysgu yw cynnig amgylchedd anogol er mwyn helpu disgyblion sydd ag anawsterau cymdeithasol ac emosiynol i ddatblygu sgiliau gwydnwch a'u galluogi i ddychwelyd i addysg brif ffrwd amser llawn yn llwyddiannus erbyn diwedd Blwyddyn 8, neu'n gynt os yw'n bosibl. Mae ystod o gymorth ar gael i'r disgyblion i'w galluogi i gael mynediad at y cwricwlwm prif ffrwd yn llwyddiannus.

Mae disgwyl i rywfaint o'r cohort presennol symud i addysg brif ffrwd erbyn mis Medi 2017, ac mae lleoliadau grŵp bach amgen mewn ysgolion cynnal prif ffrwd yn cael eu hystyried ar gyfer y disgyblion sy'n weddill o'r un dyddiad. Bydd hyn yn arwain at ddatgan y Ganolfan Adnoddau Dysgu yn wag o ddechrau blwyddyn academaidd 2017/18, hyd nes y gwneir penderfyniad i'w chau'n barhaol.

Sut y gallaf gymryd rhan?

Trefnwyd dwy sesiwn ymgynghori galw heibio. Mae croeso i chi ddod i unrhyw un o'r sesiynau a chwrdd â swyddogion y cyngor wyneb yn wyneb i drafod y cynnig.

Lleoliad	Dyddiad ac Amser	Sesiwn
Ysgol Uwchradd Llanwern, Hartridge Farm Road, Casnewydd NP18 2YE	Dydd Iau, 13 Gorffennaf 2017 10.00am – 12.00pm	Sesiwn galw heibio
Y Ganolfan Ddinesig, Casnewydd NP20 4UR	Dydd Mawrth, 12 Medi 2017 4.30pm – 6.30pm	Sesiwn galw heibio

Bydd y cyfnod ymgynghori ffurfiol yn dechrau Ddydd Llun, 10 Gorffennaf 2017 ac yn dod i ben am ganol nos Ddydd Sul, 24 Medi 2017.

Gellir cyflwyno sylwadau a chwestiynau drwy ddefnyddio'r ffurflen ymateb atodedig. Bydd y ffurflen hon hefyd ar gael yn y sesiynau galw heibio neu i'w lawrlwytho yn www.newport.gov.uk/schoolreorganisation

Dylid anfon yr ymatebion hyn at Reolwr Datblygu'r Gwasanaeth Addysg, Ystafell 425w, Cyngor Dinas Casnewydd, Y Ganolfan Ddinesig, Casnewydd NP20 4UR. Fel arall, gellir cyflwyno sylwadau a ffurflenni ymateb sydd wedi'u cwblhau drwy e-bost i school.reorg@newport.gov.uk

Cwestiynau ac Atebion

Beth fydd yn digwydd i'r ystafelloedd a ddefnyddir ar hyn o bryd gan y Ganolfan Adnoddau Dysgu?

Bydd dod â'r ddarpariaeth i ben yn barhaol o fis Ionawr 2018 yn galluogi'r ystafell ddosbarth a ddefnyddir ar hyn o bryd gan y Ganolfan Adnoddau Dysgu i gael ei defnyddio eto gan addysg brif ffrwd. Gallai hyn, o bosibl, arwain at fwy o gapasiti er mwyn helpu i ateb y galw am leoedd mewn ysgolion uwchradd ledled y Ddinas.

Faint o blant y bydd y cynnig hwn yn effeithio arnynt?

Ar hyn o bryd, dim ond saith disgybl sydd ar gofrestr y ddarpariaeth, ac mae disgwyl i ddau ohonynt ddychwelyd i'w hysgolion prif ffrwd priodol yn ystod tymor yr haf 2017, a fydd yn lleihau nifer y disgyblion sy'n weddill i bump yn unig.





Beth fydd yn digwydd i'r disgyblion hyn?

Y cynnig yw y bydd addysg yn cael ei darparu i'r disgyblion hyn mewn grwpiau bach, a bydd y lleoliad prif ffrwd yn cael ei gefnogi gan y Cydgysylltydd Anghenion Dysgu Ychwanegol a'i thîm. Bydd staff yn dal i roi gofal bugeiliol iddynt ac yn ymyrryd er mwyn mynd i'r afael â'u hanghenion emosiynol a chymdeithasol, bydd unrhyw leihad mewn perfformiad yn cael ei fonitro, a bydd cyfarfodydd monitro rheolaidd yn cael eu cynnal â rhieni.

Mae rhai disgyblion eisoes yn integreiddio ag addysg brif ffrwd ar sail 1 diwrnod yr wythnos, a chredir y bydd y trefniant newydd hwn yn cynnig mwy o hyblygrwydd i ddisgyblion er mwyn iddynt allu astudio'r pynciau maent yn hyderus ynddynt yn fwy rheolaidd gyda golwg ar ychwanegu at y llwyfan hwn. Bydd hyn yn sicr yn helpu cynhwysiant, gan y bydd y disgyblion ar brif safle'r ysgol lle y gallant feithrin gwydnwch a bod yn ddsygwyr annibynnol sy'n barod i fynd ymlaen i addysg bellach neu'r byd gwaith.

Beth fydd yn digwydd i'r staff?

Mae'r Ganolfan Adnoddau Dysgu yn cael ei chefnogi gan bedwar aelod o staff – un athro a thri chynorthwydd addysgu. Pe byddai'r Ganolfan Adnoddau Dysgu yn cael ei chau, byddai'r tair swydd hon mewn perygl o gael eu dileu. Fodd bynnag, gallai'r Corff Llywodraethu ddewis defnyddio'r unigolion hyn yn rhywle arall yn yr ysgol i ddiwallu anghenion y cwricwlwm.

Pryd y bydd hyn yn digwydd?

Y bwriad yw y bydd y cohort presennol o ddisgyblion yn trosglwyddo naill ai i addysg brif ffrwd neu, fel arall, i leoliad Anghenion Dysgu Ychwanegol mwy cynhwysol mewn ysgol gynnal brif ffrwd erbyn mis Medi 2017. O ganlyniad, bydd y Ganolfan Adnoddau Dysgu yn wag o ddechrau blwyddyn academaidd 2017/18. Os caiff y cynnig hwn ei gymeradwyo, bydd y ddarpariaeth yn cau'n ffurfiol ar 31 Rhagfyr 2017.


A fydd y cynnig hwn yn effeithio ar drefniadau cludiant ysgol?

Lle y bo'n briodol, darperir cludiant yn unol â pholisi'r Cyngor. Nid yw'r cynnig yn effeithio ar hyn.

Beth yw cost y cynnig hwn?

Cytunwyd eisoes na fydd y Ganolfan Adnoddau Dysgu yn Ysgol Uwchradd Llanwern yn cael ei hariannu o fis Medi 2017 ymlaen, a bydd y Cyngor yn arbed arian o ganlyniad i hynny. Fodd bynnag, gall yr arbedion hyn gael eu gosod yn erbyn y pwysau cynyddol ar gyllideb Anghenion Addysgol Arbennig y Cyngor os bydd angen cymorth ychwanegol ar unrhyw un o'r disgyblion ar gofrestr y Ganolfan Adnoddau Dysgu ar hyn o bryd.

Gellir trefnu i'r wybodaeth fod ar gael yn ieithoedd eraill y gymuned hefyd os oes angen. Cysylltwch â ni ar 01633 656656 i drefnu.





Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Cau'r Ganolfan Adnoddau Dysgu ar safle Ysgol Uwchradd Llanwern

Mae eich sylwadau'n bwysig. Mynegwch eich barn am y cynnig drwy gwblhau'r holiadur hwn a'i ddychwelyd at Reolwr Datblygu'r Gwasanaeth Addysg, Cyngor Dinas Casnewydd, Ystafell 425W, Y Ganolfan Ddinesig, Casnewydd NP20 4UR. Fel arall, gallwch anfon eich sylwadau mewn e-bost i school.reorg@newport.gov.uk

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad hwn yw hanner nos ar 24 Medi 2017.

Noder na chaiff ymatebion negyddol i'r ymgynghoriad hwn eu cyfrif fel gwrthwynebiadau i'r cynnig. Byddant yn cael eu cyfrif fel sylwadau andwyol. Dim ond ar ôl i hysbysiad statudol gael ei gyhoeddi y gellir cofrestru gwrthwynebiadau.

A ydych o blaid y cynnig i gau'r Ganolfan Adnoddau Dysgu sydd ar safle Ysgol Uwchradd Llanwern ar hyn o bryd yn barhaol?

Ydw

Nac ydw

Defnyddiwch y blwch isod i nodi unrhyw resymau neu sylwadau (gan gynnwys opsiynau amgen).

Nodwch pwy ydych (e.e. rhiant/gofalwr plentyn sy'n mynychu meithrinfa leol)

Os hoffech gael eich hysbysu bod yr adroddiad ar yr ymgynghoriad wedi'i gyhoeddi, rhowch eich manylion cyswllt:

E-bost: _____

Cyfeiriad post: _____

